**BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar-lein ddydd Llun, 29 Tachwedd 2021 am 10.00am

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol a oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd C. Leyshon (Cadeirydd)

Y Cynghorydd J Rosser   Y Cynghorydd L Hooper

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms A Lloyd, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau i Blant
Ms C Miles – Cyfreithiwr Gofal Plant
Ms C Jones – Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant
Mr C. Mann – Rheolwr y Garfan Adolygu
Mr M Free - Rheolwr Gwasanaeth
Mrs J Thomas – Rheolwr Cwynion a Sicrhau Ansawdd, Gwasanaethu Cymdeithasol

**Eraill oedd yn bresennol**

E Phillps-Magil - VfCC
Annabel Galt - Fforwm Glasbrint / VfCC
A W - Cynrychiolydd Pobl Ifainc

**30 Datganiadau o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**31 Croeso**

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i groesawu swyddogion o Voices from Care Cymru i'r cyfarfod gyda chroeso arbennig i'r cynrychiolydd pobl ifainc.

**32 Ymddiheuriadau**

Cafodd ymddiheuriadau am absenoldeb eu derbyn oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G Hopkins, S Rees, S Rees Owen, ac E Griffiths.

**33 Cofnodion**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar 13 Medi a 12 Hydref 2021 yn y drefn honno.

**34 Adroddiad Crynodeb Blynyddol Fforwm RhCT**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Voices from Care Cymru (VfCC) grynodeb i'r Aelodau o'r cyflawniadau a wnaed gan VfCC o ran allgymorth i Bobl Ifainc yn Rhondda Cynon Taf. Dywedwyd wrth yr aelodau am y gweithgareddau

a'r trefniadau cymorth a gyflwynwyd dros y 6 mis diwethaf i annog byw'n annibynnol, rhannu syniadau a chreu Rhwydweithiau cymorth.
Nododd yr Swyddog arwyddocâd lleisiau Pobl Ifainc ledled yr ardal o ran ysgogi newid cadarnhaol.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr gweithrediadau y cynrychiolydd pobl ifainc, sydd wedi bod yn rhan o Voices for Care am y 6 blynedd diwethaf, a oedd wedi ymuno â'r cyfarfod er mwyn trafod ei brofiadau cadarnhaol gyda'r grŵp a'i effaith ar ei fywyd. Siaradodd y person ifanc yn gadarnhaol am y gweithgareddau yr ymgymerwyd â hwy fel rhan o'r fforwm, a oedd yn darparu mynediad at rwydweithiau cymunedol, annibyniaeth, ac yn ei helpu i feithrin sgiliau newydd. Siaradodd y person ifanc hefyd am rôl gadarnhaol y fforwm yn ystod y pandemig, gyda'r gefnogaeth barhaus i bobl ifainc.

Manteisiodd swyddogion o'r Fforwm ar y cyfle i roi gwybod am y rhwystrau mae'r gwasanaeth wedi'u hwynebu yn ystod y pandemig, ac fe lwyddodd y Fforwm i'w goresgyn trwy ddefnyddio ffyrdd newydd o weithio. Cafodd manylion y trefniadau cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd i bobl ifainc eu rhannu, a chlywodd yr Aelodau am y trefniadau cymorth sydd ar gael mewn rhai llyfrgelloedd ledled y Fwrdeistref Sirol, yn ogystal â'r gwaith sydd ar y gweill o ran Ysgolion a Chartrefi Preswyl yn y dyfodol. Trafododd y swyddogion hefyd yr angen i hyrwyddo'r neges gywir i sicrhau'r ymgysylltiad gorau â phobl ifanc â swyddogion gan bwysleisio pwysigrwydd llais y person ifainc i sicrhau newid cadarnhaol i bobl ifainc y Fwrdeistref Sirol a'r cenedlaethau i ddod.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau a'r cynrychiolydd pobl ifainc am eu cyfraniadau a'u gwaith cadarnhaol o ran targedu pobl ifainc o fewn RhCT. Gwnaeth y Cadeirydd sylwadau ar hygyrchedd lleoliadau ledled By Fwrdeistref Sirol i'r fforwm eu defnyddio ac awgrymodd y dylid bwrw ymlaen â chyfarfodydd pellach gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant a swyddogion perthnasol eraill i symud y mater yn ei flaen.

Gwnaeth Cyd-aelodau'r Bwrdd sylwadau ar y diweddariad a chymryd y cyfle i ddiolch i'r Fforwm am y gwaith a wnaed gan gyfeirio at y darpariaethau cymorth a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

- Nodi'r diweddariad a ddarperir i'r bwrdd a derbyn adroddiad cynnydd pellach i gyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol.

**35 Adroddiad Blynyddol Miskin ac Adroddiad Blynyddol Carfan Teuluoedd Therapiwtig 2020-21**

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am waith y Carfan Miskin a Charfan Teuluoedd Therapiwtig, a nodwyd yn adroddiadau blynyddol y gwasanaethau ar gyfer 2020-2021 a thynnodd sylw'r Aelod at gyflawniadau'r ddwy garfan a'u mentrau o ran cadw teuluoedd gyda'i gilydd o fewn RhCT .

Hysbysodd Rheolwr y Gwasanaeth yr Aelodau fod carfan Miskin yn cynnwys 5 o bobl a 40+ o bersonél, sydd i gyd yn helpu i wella gallu magu plant i alluogi teuluoedd i ofalu am blant sydd gyda'r cyfranogiad

statudol lleiaf posibl. Ychwanegodd fod carfan Miskin wedi hen ennill ei phlwyf yn y gymuned oherwydd ei ymyriadau, gan dynnu sylw at y ffaith bod 91% o blant yn 2020-21 wedi aros gyda'u rhieni neu'r teulu agos ar ôl yr ymyrraeth.

Darparwyd manylion gwasanaethau'r Garfan Teuluoedd Therapiwtig (TFT) gan gynnwys manylion ymgynghoriadau, asesiadau therapiwtig ac ymyriadau i blant a theuluoedd yn RhCT. Yn yr un modd â charfan Miskin, mae'r garfan Teuluoedd Therapiwtig wedi gweld gwelliant parhaus ers ei blwyddyn agoriadol trwy gefnogi ac ymgysylltu â theuluoedd a hybu canlyniadau cadarnhaol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Gwasanaeth am yr adroddiad ac roedd yn falch o weld cwmpas eang y mentrau ar waith i gefnogi teuluoedd a phlant o fewn RhCT.

Diolchodd un aelod i'r garfan am yr holl ymdrechion a'r effaith gadarnhaol ar deuluoedd a phlant.

**PENDERFYNODD y Bwrdd Rhianta Corfforaethol**:

- Nodi'r wybodaeth oedd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad;

**36 Y Wefan Plant sy'n Derbyn Gofal**

Rhoddodd swyddog o'r Garfan Rheoli Diogelu ac Adolygu drosolwg i'r Aelodau o'r datblygiadau a wnaed ar wefan Plant sy'n derbyn gofal a oedd i fod i gael ei lansio yn y Flwyddyn Newydd. Amlygodd y swyddog fod y wefan yn ddwy ochrog ac wedi'i llunio yn benodol ar gyfer plant a phobl ifainc o fewn RhCT.

Dywedodd y Swyddog y byddai'r wefan yn fuddiol i Weithwyr Cymdeithasol fel adnodd y gellid ei ddefnyddio i rannu gwybodaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifainc yn RhCT. Dysgodd yr aelodau fod y garfan yn bwriadu gweithio mewn partneriaeth â'r carfanau Maethu a Phreswyl i ddatblygu cyfleoedd trwy ddefnyddio'r wefan fel rhan o'u sesiynau gwaith allweddol.

Er gwaethaf llwyddiannau'r wefan, cydnabu'r swyddog yr heriau a wynebwyd gyda datblygiad y wefan a meysydd gwella pellach i sicrhau gwell profiad i ddefnyddwyr gwasanaeth, sy'n rhoi sylwadau ar agweddau ar gynnwys rhyngweithiol gwell ac angen i wella'r cymhelliant i blant a phobl ifainc ddychwelyd i gyrchu'r wefan. Dywedwyd wrth yr aelodau fod y garfan wedi bwrw ymlaen â gwaith gyda Wicid.tv i ddarparu cynnwys rhyngweithiol sy'n caniatáu i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau, cystadlaethau a chyfleoedd addysgol.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod gan y wefan Ddogfen Ymgynghori ar-lein ('Fy Llais') a oedd yn caniatáu i bobl ifainc lunio adolygiadau ar agweddau yr oeddent yn eu mwynhau a meysydd i'w gwella, a gynorthwyodd y gwasanaeth i gynnal trafodaethau agored.

Cydnabu'r swyddog y cyfle i gydweithio â Voice of Care Cymru (VfCC) fel rhan o'r ymgynghoriad â phobl ifainc.

Croesawodd y Cadeirydd y diweddariad a'r newyddion y byddai'r wefan yn cael ei lansio yn y Flwyddyn Newydd, a fyddai'n offeryn buddiol i ddefnyddwyr y gwasanaeth.

Roedd yr aelodau'n cydnabod yr anawsterau y mae'r garfan yn eu profi o ran ymgysylltu â phlant a phobl ifainc ac yn canmol y gwasanaeth am y gwaith a wnaed hyd yma i wella'r agweddau hyn. Croesawodd yr aelodau gydweithrediad â Voices o Care Cymru (VfCC) yn y dyfodol i gynorthwyo gyda datblygiadau'r wefan wrth symud ymlaen.

**PENDERFYNODD y Bwrdd Rhianta Corfforaethol:**

- Nodi cynnwys y diweddariad.

**37 ADRODDIAD CHWARTEROL TROS GYNNAL**

Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Plant ar y cynnydd a wnaed gan Tros Gynnal Plant (TGP) Cymru. Dechreuodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth trwy drafod ystadegau Eiriolaeth Chwarter Dau yn ymwneud â Phlant sy'n Derbyn Gofal (CLA). Yn seiliedig ar y Cynnig Gweithredol yn Chwarter Dau, daeth 87 o blant a phobl ifainc yn gymwys i gael Cynnig Gweithredol; allan o'r rhain dim ond 8 o bobl ifainc oedd yn derbyn gofal; cyfeiriwyd un person; fodd bynnag, gwrthododd y gweddill y cyfle i gwrdd ag eiriolwr.

Yn chwarter dau derbyniodd TGP Cymru 17 o atgyfeiriadau cynnig Gweithredol; O'r 17 roedd un person yn derbyn gofal. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y bu cynnydd sylweddol mewn atgyfeiriadau o gymharu â chwarteri blynyddoedd blaenorol. Dywedwyd wrth yr aelodau bod TGP wedi cyfarfod â swyddogion o fewn y Cyngor i ddatblygu dulliau i ganiatáu i'r Cyngor drafod rhesymau posibl dros wrthod Cynigion Gweithredol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai'r Eiriolaeth Ymweld yn parhau ar draws y pedwar cartref cymunedol yn RhCT gyda'r gefnogaeth yn cael ei darparu ar-lein ar hyn o bryd gyda chysylltiad wythnosol: fodd bynnag, roedd cynlluniau ar waith i gynnig cyswllt Wyneb yn Wyneb yn ystod y chwarter nesaf yn dilyn trafodaethau â rheolwyr cartrefi cymunedol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Plant am y diweddariad llafar ar Tros Gynnal Plant (TGP) a siaradodd am bwysigrwydd yr ymgysylltiad Wyneb yn Wyneb trwy atgyfeiriadau gweithredol ac mae'n croesawu ailgyflwyno'r ddarpariaeth hon cyn gynted ag y byddai'n ddiogel i wneud hynny.

**PENDERFYNWYD:**

- Nodi'r adroddiad.
- Derbyn diweddariadau ar y cynnydd mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

**38 ADRODDIAD ER GWYBODAETH**

Dywedodd y cadeirydd wrth yr aelodau bod yr adroddiadau canlynol yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd at ddibenion gwybodaeth yn unig, er ei fod yn croesawu'r cyfle am unrhyw gwestiynau mewn perthynas â phob un o'r adroddiadau.

**39 Arolygiaeth Gofal Cymru**

Darparwyd adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru i'r bwrdd at ddibenion gwybodaeth y mae'r bwrdd yn gyfarwydd ag ef **PENDERFYNWYD** y byddai'n cael ei nodi**.**

**40 Eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**41 Gwasanaethau Cymdeithasol – Cwynion a Chanmoliaethau Chwarterol**

Cyflwynwyd adroddiad chwarterol cwynion a chanmoliaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Aelodau er wybodaeth, ac roedd yn cynnwys gwybodaeth eithriedig. **PENDERFYNWYD** nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

**42 Adroddiadau Rheoliad 73**

Cyflwynwyd adroddiadau Rheoliad 73 i'r Aelodau er gwybodaeth. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant at ymholiad a godwyd yng nghyfarfod blaenorol y Bwrdd mewn perthynas â chanlyniad yr arolygiad yng nghartref preswyl Beddau a dywedwyd wrth yr Aelodau fod canlyniad yr arolygiad wedi'i gynnwys yn yr adroddiad a ddarparwyd.

**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

- Nodi cynnwys yr adroddiad at ddibenion gwybodaeth.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.00am**

**Y Cynghorydd C Leyshon**
**Cadeirydd**